

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN
CYMRU**



MID AND WEST WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

**SYLWER: MAE'R COFNODION YMA'N AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y
PWYLLGOR ARCHWILIO A CHRAFFU PERFFORMIAD YN EI GYFARFOD NESAF / NOTE:
THESE MINUTES ARE SUBJECT TO CONFIRMATION BY THE PERFORMANCE, AUDIT AND
SCRUTINY COMMITTEE AT ITS NEXT MEETING**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR
ARCHWILIO A CHRAFFU PERFFORMIAD
MINUTES OF THE PERFORMANCE AUDIT AND
SCRUTINY COMMITTEE**

**DYDD LLUN, 28 EBRILL 2014
MONDAY, 28 APRIL 2014**

**YSTAFELL CAER, PENCADLYS Y GWASANAETH TÂN, CAERFYRDDIN
CAER SUITE, FIRE SERVICE HEADQUARTERS, CARMARTHEN**

11.00 – 12.20

60% PRESENOLDEB / ATTENDANCE

Presennol yn y Cyfarfod / Present at Meeting:

CADEIRYDD / CHAIR:	T Hennegan
DIRPRWY GADEIRYDD / DEPUTY CHAIR:	Anfonwyd ymddiheuriadau oddi wrth / Apologies sent from: K Curry
AELODAU / MEMBERS:	Cyng. / Cllrs: J Curtice, W E Evans, R Rees-Evans, K Pearson, A Wilcox D Cole, G Walker, G Jones,
YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:	K Curry, J Williams, P James, J Dudley
YN BRESENNOL / IN ATTENDANCE:	D Daycock, E Aitken, C Davies, D Masson, S McLinden, Cyng. / Cllr G Thomas (arsylwr / observer), R Llewellyn (arsylwr / observer)

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr P James, K Curry a J Williams.

2 DATGANIAD GAN AELODAU O UNRHYW FUDDIANNAU PERSONOL NEU SY’N RHAGFARNU

Fe wnaeth pob un o’r Aelodau a oedd yn bresennol ddatgan bod ganddynt fuddiant personol yn unrhyw fusnes sy’n ymwneud â, neu sy’n effeithio ar eu Hawdurdod Cyfansoddol nhw.

3 CYHOEDDIADAU’R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL

Dyweddodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau ei fod wedi derbyn hysbysiad fod Mr Hugh Thomas o’r Swyddfa Archwilio Mewnol yn Sir Gaerfyrddin yn ymddeol ar ddiwedd Mai 2014. Fe wnaeth y Cadeirydd dymuno ymddeoliad hapus iddo a diolchodd i Mr Thomas am yr holl waith a wnaeth ef gyda’r Awdurdod Tân dros y blynyddoedd.

Dyweddodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod y Cynghorydd W D Thomas yn anhwylyd ar hyn o bryd ac na fyddai ar gael ar gyfer unrhyw un o gyfarfodydd yr Awdurdod Tân nes diwedd Mehefin.

Fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch y Cynghorydd P James am gerdded i fyny’r Wyddfa’n ddiweddar gyda diffoddwyr tân ifanc ac aelodau o Orsaf Dân Aberystwyth, ac am godi dros £2,000 i Elusen y Diffoddwyr Tân a Sefydliad Prydeinig y Galon.

4 I GADARNHAU AC ARWYDDO BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A CHRAFFU PERFFORMIAD, A GYNHALIWDYD AR Y 27^{AIN} O IONAWR 2014, YN GOFNOD CYWIR

Tynnodd y Cynghorydd G Thomas sylw at gamgymeriad ar dudalen 8, eitem 12, a dylai brawddeg yn y paragraff 1^{af} ddarllen fel hyn:-

Yn ogystal, adroddwyd yn Hydref **2013** bod y prosiect wedi cael ei ohirio ac na fyddai unrhyw drefniadau parhad busnes yn eu lle wedi’r 30^{ain} o Fehefin 2014, ac y dylai sefydliadau wneud trefniadau eraill nes i system newydd i gael ei chyflwyno.

Derbyniwyd a chadarnhawyd bod cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad, a gynhaliwyd ar y 27^{ain} o Ionawr 2014, yn gofnod cywir.

Materion yn Codi o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27^{ain} o Ionawr 2014

Cyfeiriodd y Cynghorydd Walker at Dudalen 5, Eitem 8 o’r cofnodion, a dywedodd ei fod yn credu fod y ffordd mae’r Uned Tanau Bach (UTB) yn cael ei chriwio ar hyn o bryd yn wastraff adnoddau ariannol.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Darparu Gwasanaeth fod yr UTB yn adnodd ychwanegol ac esboniodd bwrpas yr UTB a sut mae’n cael ei chriwio i’r Aelodau, a manylwyd hyn yn yr adroddiad a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad, a gynhaliwyd ar y 27^{ain} o Ionawr 2014. Adroddwyd wrth yr Aelodau y cafwyd trafodaethau positif gydag Undeb y Brigadau Tân (FBU) mewn perthynas â’r mater hwn a’u bod yn frwdfrydig

ynglŷn â chriwio doethach.

Mewn ymateb i bryderon y Cynghorydd Walker am argaeledd yr UTB pan fod ei hangen ar gyfer digwyddiadau mewn ardaloedd cyfyngedig, dywedodd y Cyfarwyddwr Darparu Gwasanaeth wrth yr Aelodau y byddai gan Ganolfan Reoli'r Gwasanaeth fanylion am fynediad cyfyngedig, yn ogystal â lefelau o wybodaeth leol yn yr Orsaf. Yn ogystal, dywedwyd wrth yr Aelodau, pe byddai digwyddiad yn amlygu mewn unrhyw gyfeiriad a fyddai'n achosi pryder i'r Gwasanaeth o ran mynediad, byddai'r UTB yn cael ei ailgyfeirio i'r digwyddiad, os oedd mewn defnydd ar y pryd fel UTB, neu byddai'r Pwmp Ymateb Gwledig (PYG) yn cael ei anfon i'r digwyddiad.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Darparu Gwasanaeth atgoffa'r Aelodau fod ffigyrau manwl yn ymwneud â'r UTB wedi eu darparu ar gyfer yr Aelodau yn Atodiad 1, Eitem 8, yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwiliad a Chraffu Perfformiad.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Adnoddau at dudalen 2, eitem 4, a dywedodd fod trafodaeth anffurfiol wedi cael ei chynnal gyda Swyddfa Archwilio Cymru, lle y datgelwyd y byddai cynnydd yn y costau a restrwyd i gychwyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai mwy o fanylion am yr archwiliad a'r costau'n cael eu cyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad ym mis Gorffennaf 2014.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Adnoddau at waelod tudalen 3, a thynnodd sylw at y ffaith fod Porth yr Aelodau bron yn barod, fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n gwneud y defnydd gorau o'r porth, byddai angen canfasio'r Aelodau gyda pha wybodaeth fyddent yn dewis ei fod ar gael ar eu cyfer nhw.

Wrth gyfeirio at dudalen 6, eitem 9, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth yr Aelodau, yn anffodus, nid oedd yr Archwilwyr Mewnol yn medru mynychu'r cyfarfod heddiw, fodd bynnag, fe fyddent yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad ym mis Gorffennaf. Yn ogystal, wrth gyfeirio at dudalen 6, eitem 10, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau nad oedd wedi derbyn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig eto, ond roedd yn gobeithio ei dderbyn mewn pryd i'w gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad ym mis Gorffennaf.

5 I DDERBYN ADRODDIADAU SICRWYDD BUSNES A PHERFFORMIAD HYD AT FIS MAWRTH 2014

Darparodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad gyfres o bedair dogfen ar berfformiad hyd at fis Mawrth 2014 i'r Pwyllgor, a oedd yn rhoi adlewyrchiad manwl gywir o berfformiad y Gwasanaeth yn y pedwerydd a'r olaf o'r cyfnodau adrodd chwarterol. Yn ogystal, dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr wybodaeth yn cael ei ddilysu ar hyn o bryd ac yna byddai'r data'n cael ei ddefnyddio i baratoi'r Adroddiad Asesu Perfformiad Blynyddol a dderbynnir ym mis Medi 2014.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y ffaith fod y broses bresennol a ddefnyddir i grynhoi data, sef system Reoli Perfformiad Ffynnon wedi dod i ben ac y byddai gweithdrefn adrodd newydd, gan ddefnyddio'r system VIPER fewnol newydd, yn cael ei defnyddio yn y dyfodol. Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn esthetaid, bydd yr adroddiadau a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau'n debyg i'r adroddiadau cynt, gyda rhai gwelliannau.

Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r pedwar Atodiad a amlinellwyd yn yr adroddiad, sef:

Cynlluniau Gweithredu Adrannol ac Ardal Reoli (Atodiad 1)

Tynnwyd sylw'r Aelodau at Atodiad 1 o'r adroddiad, a oedd yn cynnwys sylwebaeth gan bob Pennaeth Adran neu Ardal Reoli, gan ddefnyddio statws, Coch, Melyn neu Wyrdd (RAG) i ddangos sut mae eu Hadran neu Ardal Reoli wedi dod yn eu blaenau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, o'r 93 o weithredoedd, roedd 58 ohonynt wedi cael eu cwblhau, gyda 27 ar darged a 10 ychydig tu allan i'r targed ond o fewn y terfyn goddefiant derbyniol (melyn) ac 1 weithred tu allan i'r targed (coch), sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol a chyflwyno Meddalwedd Craidd newydd a fyddai'n cael ei barhau i gynllun 2014-2015 yr adran, oherwydd problemau technegol.

Dyweddodd y Cynghorydd Pearson fod y Rheolwyr Sirol yn adrodd yn wahanol am eu gweithredoedd, heb unrhyw gysondeb na safoni ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mynegodd y Cynghorydd Pearson bryder nad oedd rhai adrannau wedi nodi unrhyw welliannau ar gyfer 2013/14 ac roedd yn teimlo y dylai pob adran fod yn ymdrechu i nodi gwelliannau yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Esboniodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad wrth yr Aelodau bod y gwelliannau'n gysylltiedig â'r amcanion a ddarparwyd yn y Cynllun Gwella Blynyddol ar gyfer 2013/2014, ac na fyddai pob un o'r adrannau'n nodi gwelliannau yn unol â'r Cynllun.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Adnoddau bod yr adroddiad yn cael ei wella, er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r Aelodau a'r cyhoedd i'w ddarllen a'i ddeall. Cytunodd yr Aelodau ac ychwanegodd y Cynghorydd Pearson fod angen dangos cyswllt ag amcanion gwella mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Dangosyddion Perfformiad – Perfformiad yn unol â'r targedau a osodwyd ar gyfer Dangosyddion Strategol a Dangosyddion Craidd (Atodiad 2)

Adroddodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad bod yr wybodaeth am berfformiad fel yr oedd ym mis Mawrth 2014 a'r ffigyrau Rhagamcanol ar gyfer cyfnod adrodd 2013/14 wedi eu hamlinellu yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

O'r 34 o ddangosyddion perfformiad statudol a chraidd, a oedd yn mesur perfformiad iechyd corfforaethol a darparu gwasanaethau, arhosodd 20 (59%) o fewn y terfyn goddefiant. Roedd y 14 o ddangosyddion nad oedd o fewn y terfyn goddefiant yn ymwneud â salwch, tanau, marwolaethau ac anafiadau mewn tanau, ffug alwadau a fynychwyd a bod yn berchen ar larymau mwg.

Tynnodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad sylw'r Aelodau at y ffaith fod nifer y tanau a'r tanau bwriadol ar darged ar gyfer y flwyddyn adrodd, er gwaethaf y ffaith eu bod yn dangos cynnydd yn nifer y tanau. Roedd yn siomedig nodi, fodd bynnag, bod nifer y marwolaethau mewn tanau damweiniol mewn anheddau wedi codi ers llynedd, gyda chwech yn amlygu yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Roedd anafiadau mewn tanau damweiniol mewn anheddau wedi gostwng gan 5%. Dywedwyd wrth yr Aelodau, er gwaethaf y perfformiad siomedig o ran rhai dangosyddion, roedd y tuedd tymor hir ar gyfer tanau, marwolaethau ac anafiadau mewn tanau, ar i lawr.

Adroddiad Cynnydd Sicrwydd Busnes (Atodiad 3)

Adroddodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad bod y diweddariad ar Sicrwydd Busnes yn rhoi crynodeb o gynnydd ac argymhellion a wnaed fel rhan o drefniadau craffu allanol yr Awdurdod.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod 2 o'r gweithredoedd wedi cael eu parhau o 2012/2013, gydag 1 wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar a'r llall yn parhau. Cafwyd cyfanswm o 33 o weithredoedd yn 2013/2014, cwblhawyd 28 ohonynt, roedd 2 o fewn y terfyn goddefiant ac roedd 3 ar darged.

Y Diweddaraf ar Brosiectau Corfforaethol (Atodiad 4)

Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad grynodedb o'r cynnydd a wnaed yn unol â'r prosiectau corfforaethol, o ran y prosiectau sydd dan ystyriaeth yn amodol ar astudiaeth dichonoldeb, prosiectau sydd ar waith ar hyn o bryd, prosiectau a gwblhawyd a phrosiectau y gwnaeth y Gwasanaeth gyfrannu atynt neu eu harwain fel rhan o'r Pwyllgor Materion Cyffredinol (PMC).

Nodwyd, o'r 14 o brosiectau sydd ar waith ar hyn o bryd, roedd 5 ar darged, gyda'r 5 sy'n weddill o fewn y terfyn goddefiant derbynol ac roedd 2 brosiect tu allan i'r targed.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd R Rees-Evans, dywedodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad wrth yr Aelodau y byddai cynnydd prosiectau'n cael ei gasglu hefyd gan ddefnyddio'r system VIPER newydd, a bod y tîm yn y broses o fudo data o'r system Ffynnon bresennol i VIPER.

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad y byddai system VIPER yn gofyn i berchenogion prosiectau i osod cerrig milltir, a fyddai'n galluogi i ymagwedd safonol at y statws Coch, Melyn a Gwyrdd (RAG) i gael ei defnyddio ar draws y bwrdd.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

6 I DDERBYN ADRODDIAD YN RHOI'R DIWEDDARAF AR Y GOFRESTR RISGIAU BUSNES

Ar gais yr Aelodau, fe wnaeth y Cyfarwyddwr Risg roi'r diweddaraf ar y Gofrestr Risgiau Busnes. Tawelwyd meddyliau'r Aelodau bod adrodd am Risgiau Busnes yn gynwysedig yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor, a oedd yn unol ag Erthygl 8 o'r Cyfansoddiad, sy'n ymwneud â chylch gorchwyl ar gyfer rôl y Pwyllgor.

Atgoffwyd Aelodau'r Pwyllgor fod Grŵp Rheoli Risgiau Busnes (GRhRB) wedi'i sefydlu yn 2007, a oedd yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Risg, a bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad yn Aelodau sefydlog o'r grŵp.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Risg esbonio'r Gofrestr Risgiau Busnes - Ebrill 2014, fel y dangoswyd yn Atodiad A, i'r Aelodau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Risg wrth yr Aelodau fod dyddiadau newydd ar gyfer gweithredu diwydiannol wedi dod i law, ac fe wnaeth sicrhau'r Aelodau bod yna fesurau cydnerthedd di-ffael yn eu lle.

Mewn ymateb i ymholiad a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd Rees-Evans, dywedodd y Cyfarwyddwr Risg fod risgiau busnes yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob 6 - 8 mis, fodd bynnag, ni chynhaliwyd yr adolygiad diwethaf oherwydd y gweithredu diwydiannol. Yn ogystal, dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gofrestr yn ddogfen fyw, a

oedd yn casglu'r risgiau a nodwyd mewn cyfarfodydd, fforymau ac ymarferion craffu eraill o fewn y Gwasanaeth.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad yn nodi'r wybodaeth sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

7 I DDERBYN ADRODDIAD AR YMARFER CRAFFU'R ADRAN CYNLLUNIO STRATEGOL A PHERFFORMIAD, 11^{EG} O CHWEFOR 2014.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau adroddiad ar Ymarfer Craffu'r Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad (CSPH), a gynhaliwyd ar yr 11^{eg} o Chwefror 2014 ym Mhencadlys y Gwasanaeth, i'r Aelodau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr Ymarfer Craffu'n archwilio sut oedd yr Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn rheoli'r gofynion statudol a osodwyd arnynt gan yr Awdurdod Tân, a sut oedd yr adran yn cyflawni yn unol â'r gofynion yma. Yn ystod yr Ymarfer Craffu, rhoddwyd mewnwelediad i'r Aelodau i weithgareddau eraill yr adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad, er mwyn cynorthwyo gyda gwelliannau sefydliadol.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Adnoddau sylw'r Aelodau at Atodiad 1 – Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar yr 11^{eg} o Chwefror, a phwysleisiodd elfennau allweddol y meysydd canlynol:-

- Prosesau Busnes
- Cynllunio ar gyfer Risgiau a Cheisiadau am Ddata
- Adolygu, Reportio a Chydweithio Allanol
- Prosiectau Ychwanegol a Meysydd Gwaith

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr argymhellion / sylwadau a wnaed yn ystod yr ymarfer craffu yn cael eu rhoi ar waith gan Swyddogion a Chyfarwyddwyr.

Fe wnaeth y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad atgoffa'r Aelodau y byddai Gweithdy Datblygu'r Gyllideb yn cael ei gynnal ar y 12^{fed} o Fai 2014, yn y Ganolfan Cydgysylltu Strategol, Pencadlys yr Heddlu, a gofynnodd yn barchus i'r Aelodau i gadarnhau y byddant yn mynychu gyda'r Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad a'r tîm am eu holl waith caled.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad a'r pedwar argymhelliad a wnaed gan yr Aelodau, sy'n cael eu rhoi ar waith gan Swyddogion a Chyfarwyddwyr, sef:-

1. Bod yr Aelodau'n dymuno nodi faint o argraff roedd cyflawniadau, brwdfrydedd a gwaith da'r Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad ac ansawdd a maint y gwaith a wnaed gan adran mor fach, wedi'i gael arnynt.
2. Bod y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn rhoi cyflwyniad ar System VIPER i holl aelodau'r Awdurdod Tân.

3. Os na ellir datblygu system VIPER yn fasnachol, yna dylid caniatáu i Awdurdodau a Sefydliadau eraill i'w defnyddio fel arwydd o ewyllys da.
4. Bod yr Aelodau'n rhoi eu cefnogaeth i ychwanegu swydd Cydlynedd Gwerthuso parhaol o fewn yr adran.

12 I DDERBYN ADRODDIAD AR GRAFFU'R AWDURDOD TÂN – RHAGLEN GRAFFU DDIWYGIEDIG 2014 A THU HWNT

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad (CSPH) adroddiad ar Raglen Graffu Ddiwygiedig 2014 a thu hwnt i'r Pwyllgor, er mwyn roi ystyriaeth iddi.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y broses Graffu'n cael ei hwyluso gan Swyddogion o'r Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad a'r Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Gwasanaethau Democrataidd.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y Rhaglen Graffu yn Atodiad 1 i'r Adroddiad. Dywedwyd wrthynt fod y rhaglen yn dangos rhestr o Ymarferion Craffu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, a dywedodd y byddai 4 ymarfer craffu'n cael eu cynnal bob blwyddyn.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at ymarfer craffu Canolfan Reoli'r Gwasanaeth, a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Ebrill 2014. Awgrymodd y Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad y byddai'n berthnasol i ohirio'r ymarfer craffu oherwydd yr adolygiad cyfredol a newidiadau i Ganolfan Reoli'r Gwasanaeth, roedd y Cyngorydd W Evans yn cytuno ac ychwanegodd nad oedd angen craffu Canolfan Reoli'r Gwasanaeth ar hyn bryd. Roedd holl Aelodau'r Pwyllgor yn gytûn.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r rhaglen graffu ddiwygiedig ar gyfer 2014 a thu hwnt, sy'n amgaeëdig fel Atodiad 1.

12 I YSTYRIED UNRHYW EITEMAU ARALL O FUSNES Y MAE'R CADEIRYDD, OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, YN PENDERFYNU Y DYLLID EU HYSTYRIED FEL MATER O FRYYS YN UNOL AG ADRAN 100(B)(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Doedd dim eitemau o fusnes brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:20.